




Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Canllaw Marchnata a Chyfathrebu
Cynadleddau / Lansïadau**



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Cysylltiadau

Elin Williams

Rheolwr Cyfathrebu

e.williams@colegcymraeg.ac.uk

01267 610408 / 07891544196

Manon Llwyd-Bowen

Swyddog Datblygu: Marchnata a Chyfathrebu

m.llwyd-bowen@colegcymraeg.ac.uk

01267 610414

Cyfeiriad

Adran Gyfathrebu

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Llwyfan

Heol y Coleg

Caerfyrddin

SA31 3EQ

Cynadleddau / Lansiadau o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Canllawiau Marchnata a Chyfathrebu

Brand

- Dylid sicrhau bod nawdd y Coleg i'w weld yn glir mewn unrhyw gynhadledd/lansiad gaiff ei gynnal dan nawdd y Coleg o'r cychwyn cyntaf;
- Dylid cynnwys logo cyfredol y Coleg a Llywodraeth Cymru ym mhob gohebiaeth. Mae copi o logos y Coleg a Llywodraeth Cymru [yma](#) a dylid sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir yn unol â [Chanllawiau Brand y Coleg](#);
- DYLLID ANFON COPI O UNRHYSWBETH SY'N CYNWYS LOGO'R COLEG A'R LLYWODRAETH AT m.llwyd-bowen@colegcymraeg.ac.uk neu e.williams@colegcymraeg.ac.uk
- Ym mhob achos, boed hynny'n gyflwyniad pwynt pwer, taflen, boster, hysbyseb, e-bost, arwydd, gwahoddiad, cylchlythyr neu unrhyw ffurflenni cofrestru neu raglenni gaiff eu creu fel rhan o'r gwaith paratoi, dylid cynnwys brawddeg yn nodi mai'r Coleg sy'n cyllido'r gynhadledd/lansiad;
- Mae angen cysylltu ag Adran Gyfathrebu'r Coleg i wirio diwyg unrhyw ddeunydd hyrwyddo o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyhoeddi a dylid anfon copi o'r gwahoddiad ffurfiol at y Coleg;
- Mewn unrhyw gynhadledd/lansiad gaiff ei gynnal dan nawdd y Coleg, dylid sicrhau fod brand y Coleg yn amlwg ar ffurf pop up a phresenoldeb deunyddiau hyrwyddo perthnasol y dylid eu cael drwy Swyddog Cangen y brifysgol neu Swyddog Pwnc y Coleg.

Nwyddau

- Mae gan y Coleg gyfres o daflenni gwybodaeth sydd wedi'u creu er mwyn targedu gwahanol gynulleidfaoedd felly dylid sicrhau bod taflenni addas yn cael eu dosbarthu a'u harddangos ym mhob cynhadledd/lansiad. Dylid cysylltu â Swyddog Cangen neu Swyddog Pwnc y Coleg yn y man cyntaf i drefnu hyn;

- Mae gan y Coleg hefyd rai nwyddau allai fod o ddefnydd mewn cynadleddau/lansiadau ond dylid cysylltu â'r Swyddog Cangen neu Swyddog Pwnc mewn da bryd i drefnu bod nwyddau perthnasol ar gael

Cyfryngau Cymdeithasol

- Os oes bwriad i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cynhadledd/lansiad, sicrhewch fod unrhyw negeseuon / lluniau yn cyfeirio at y Coleg naill ai drwy ddefnyddio @ColegCymraeg neu #ColegCymraeg ac mi wnawn geisio ymateb i'r negeseuon hynny;
- Os bydd cyfrif penodol neu hashnod arbennig yn cael eu creu ar gyfer y gynhadledd/lansiad, dylid sicrhau bod yr Adran Gyfathrebu yn ymwybodol ohonynt o flaen llaw;
- Os caiff fideos eu creu yn ystod y gynhadledd/lansiad, dylid sicrhau bod nawdd y Coleg yn glir arnynt a bod copïau neu ddolenni yn cael eu hanfon at yr Adran Gyfathrebu.

Gwefannau

- Mae angen i bob cynhadledd/lansiad o dan nawdd y Coleg ymddangos ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ddwyieithog;
- Dylid cysylltu â'r Swyddog Pwnc perthnasol er mwyn cael copi o'r templed dwyieithog, ei lenwi a'i ddychwelyd mewn da bryd er mwyn iddo ymddangos ar y wefan;
- Dylid hefyd sicrhau bod yr un wybodaeth am y gynhadledd/lansiad yn ymddangos ar wefan y gangen/prifysgol lle bo hynny'n briodol.

Sylw yn y wasg

- Os gwnaiff cynhadledd/lansiad sydd o dan nawdd y Coleg dderbyn sylw yn y wasg, dylid ceisio sicrhau bod nawdd y Coleg yn amlwg mewn erthygl neu gyfweiliad ym mhob achos posib;
- Os cewch eich cyfweld gan y cyfryngau cyn neu yn ystod y gynhadledd/lansiad, sicrhewch eich bod yn cyfeirio at y ffaith fod y digwyddiad yn cael ei gynnal dan nawdd y Coleg;
- Os cewch eich cyfweld ar gyfer eitem deledu, dylid sicrhau bod nawdd y Coleg yn glir yn y cefndir ar ffurf pop up;

Cymorth gan y Coleg Cymraeg

Gall Adran Gyfathrebu'r Coleg gynorthwyo'r sawl sy'n trefnu cynadleddau/lansiadau dan nawdd y Coleg drwy wneud y canlynol:

- Gwirio diwyg unrhyw ddeunydd hyrwyddo (o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyhoeddi er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cydfynd â [chanllawiau brand y Coleg](#));
- Ychwanegu gwybodaeth ddwyieithog sydd wedi'i ddarparu gan ddefnyddio'r templed perthnasol ar wefan y Coleg;
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o geisio denu sylw at unrhyw gynadleddau/lansiadau o ddiddordeb yn y wasg;
- Sôn am y gynhadledd/lansiadau ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol y Coleg;
- Anfon nodyn am y gynhadledd/lansiad at aelodau'r Coleg mewn cylchlythyr os yw gwybodaeth am y gynhadledd/lansiad ar gael mewn da bryd;
- Sicrhau bod deunyddiau hyrwyddo yn bresennol yn y gynhadledd/lansiad drwy'r Swyddog Cangen neu Swyddog Pwnc;
- Trefnu bod swyddog perthnasol yn bresennol mewn lansiad i ddweud gair ar ran y Coleg lle bo hynny'n bosibl.

Dylai trefnydd pob cynhadledd/lansiad gysylltu â'r Adran Gyfathrebu **cyn gynted ag y mae dyddiad wedi'i gadarnhau** er mwyn trafod y posibiladau hyrwyddo.

